

**Ar ddydd Mawrth, 16 Mawrth 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm**

**PRESENNOL:** Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; D M Hughes; D Jones; D R Morgan; T Lewis, D Sheppard a'r cler

**2726** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. Mrs G Price; Mrs K Walker; Trefor Davies ac M Evans

**2727** **Materion Personol:** Dim

**2728** **Datgan Buddiant Personol / Rhagfarnol:** Dim

**2729** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2010 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

**Cofnod 2705 Sylwadau ar y Trefniadau Etholiadol Arfaethedig:** Adroddodd y Cyng. R Owen ei fod, mewn ymateb i'r Comisiwn Ffiniau, wedi cynnig bod Ffiniau Trefeurig yn aros fel y maen nhw.

**Cofnodion 2705 a 2725 Materion Priffyrdd, Trefeurig:** Fel y penderfynwyd, cysylltwyd â'r Cyng. Sir D Suter yn dilyn Cyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Chwefror gan ofyn iddo bwysu ar Geredigion am ymateb i faterion priffyrdd amrywiol a godwyd dros nifer o fisoedd, gan gynnwys y cais am finiau graean ychwanegol; wyneb ffordd anwastad a gormod o ddŵr ar y ffordd; llifogydd mewn eiddo preifat ym Mhenrhyn-coch, a'r angen am lwybr troed o ddiwedd y llwybr tu ôl i ystâd Tanyberth i Swyddfa Bost Penrhyncoch; ac ymyl y ffordd yn suddo ym Mhenbontrhydybeddau.

Mewn ateb ysgrifenedig, cadarnhaodd y Cyng. Suter fod y ceisiadau hyn, nifer ohonyn nhw'n rhai y mae yntau hefyd wedi'u codi gydag Adran Briffyrdd Ceredigion yn y gorffennol, unwaith eto wedi'u hanfon at Gyfarwyddwr y Priffyrdd ynghyd â chopi i'r Cyng. R Quant, Cadeirydd y Pwyllgor Priffyrdd.

Bydd y Cyng. Suter yn cysylltu â ni pan fydd wedi derbyn ateb.

**Cofnod 2725**

Disgwylir am ateb gan yr Heddlu ynghylch parcio ger y fynedfa i ystâd Maeseilo; gan Tai Ceredigion ynghylch darparu manau parcio ychwanegol ar ystâd Tanyberth, Penrhyncoch, a chan y Comisiwn Coedwigaeth ynghylch canghennau'n crogi dros y ffordd ger y fynedfa i Goed Allt Ddel i'r dwyrain o Blas Gogerddan.

**2730** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a Fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor**

**Cyfeillion Cartref Tregerddan:** Adroddodd y Cyng. D R Morgan ar ddiwyddiad codi arian llwyddiannus a gynhaliwyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Cyfarfod PACT:** Adroddodd y Cyng. D Sheppard iddo gyrraedd y lleoliad a hysbysebwyd ar gyfer Cyfarfod PACT ond mai dim ond ef a deiliad yr allwedd oedd yn bresennol. PENDERFYNWYD holi a oedd yr Heddlu wedi canslo'r Cyfarfod a gofyn am well cyhoeddusrwydd i'r Cyfarfodydd.

**Roedd ymateb y Cyngor i Ohebiaeth a dogfennau a dderbyniwyd fel a ganlyn:**

**2731** **Garddwest, Palas Buckingham, 20 Gorffennaf 2010:** Gwahoddiad i'r Cadeirydd sy'n rhoi'r gorau iddi i gyflwyno'i enw. Penderfynodd y Cyng. R Owen beidio ag ymgeisio.

**2732** **LICC – Datganiad gan Brian Gibbons, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

Yn ei ddatganiad, amlinellodd y Gweinidog y rôl gynyddol bwysig mae Cyngorau Tref a Chymuned yn ei chwarae o fewn llywodraeth leol ers cyhoeddi'r ymchwil ar Aberystwyth yn 2003. Atgyfnerthir hyn gan yr hyfforddiant mae clerod ac Aelodau'r Cyngor yn ei dderbyn gyda chymorth Un Llais Cymru, sydd wedi'i sefydlu erbyn hyn fel corff cynrychioladol cenedlaethol cyngorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae'r gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer llywodraeth leol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol erbyn hyn. Os bydd hwnnw'n llwyddo, bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r pŵer i ddeddfu er mwyn cryfhau a gwella rôl, swyddogaethau a rhychwant gweithgaredd cyngorau cymuned a thref.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r ddogfen.

- 2733 **Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys - Ymgynghoriad ar Dargedau Cyflogi:** Gwahoddiad i wneud sylwadau ar y targedau arfaethedig. PENDERFYNWYD (i) nodi'r ddogfen a (ii) arddangos Hysbysiad cwblhau cyfrifon Awdurdod yr Heddlu 2008/09

**Materion Ariannol:**

- 2734 **Allianz Insurance:** Disgwylir am ymateb i gais y cyngor i gynyddu'r Yswiriant Ffyddlondeb o 1 Mai 2010
- 2735 **Adran Hawliadau Allianz:** Derbyniwyd hysbysiad bod y dyfynbris a gyflwynwyd gan V C Davies am drwsio rheiliau'r gofeb rhyfel wedi'i dderbyn gan gwmni yswiriant Allianz. PENDERFYNWYD gofyn i Mr Davies i gyflawni'r gwaith yn unol â'r dyfynbris.

**Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:**

- 2736 **Un Llais Cymru – Tâl Aelodaeth 2010/11: £183** siec 977
- 2737 **Linda Griffiths – Cyfieithu - Chwefror 2010: £57.08** siec 978
- 2738 **R D Benjamin – Glanhau cabannau aros bws: £40** siec 979
- 2739 **Neuadd y Penrhyn: Hurio ystafell ar gyfer 6 Cyfarfod (£60) a rhent blynyddol safle caban aros bws (£10) Cyfanswm: £70** siec 980
- 2740 **Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Hurio ystafell Chwefror 2010: £10** siec 981
- 2741 **L Kelly: Rhent blynyddol safle hysbysfwrdd, caban aros bws a lamp:£20** siec 982
- 2742 **P Walker: Cyflog a threuliau Ion/Mawrth 2010: £670.40** siec 983
- 2743 **BT: Galwadau ffôn y Cyngor a thaliadau hyd 10.03.10: £87.24** siec 984  
Anfoneb arddull newydd lle nad yw'r TAW yn cael ei ddangos ar wahân ond wedi'i gynnwys yn yr eitemau lle telir TAW. PENDERFYNWYD (1) gofyn am anfoneb sy'n cynnwys manylion a (2) am ddangos y TAW ar wahân.

**Ceisiadau Cynllunio**

- 2744 **A100086** 24 Glan Seilo, Penrhyncoch – gwelliannau ac estyniadau: Dim gwrthwynebiad
- 2745 **Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm ar Ddydd Mawrth, 20 Ebrill, 2010**

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau i'w cynnwys ar yr agenda nesaf.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.00pm.

646

55